TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Ai cerdd yn gwneud hwyl am ben y ferch unigol hon yw 'Ar Gyrion y Dre', neu a yw'r bardd yn ceisio tynnu ein sylw at rywbeth pwysicach am ein bywydau yn yr Unfed Ganrif ar Hugain?

b) Os felly, beth yw'r pryderon sy'n cael eu hawgrymu yn y gerdd?

Nodwch linellau, ymadroddion neu eiriau penodol sy'n cefnogi eich safbwynt chi.

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Darllenwch benillion 3 a 4 unwaith eto.

Pa mor effeithiol yw'r nodwedd arddull isod wrth geisio cyfleu'r olygfa a chyfleu teimladau'r ferch?

'... y cyfan mewn côr

yn chwerthin mewn cylch'

A yw'n ddisgrifiad addas neu anaddas? Pam?

c) Darllenwch bennill 5 unwaith eto.

Pa mor effeithiol yw'r disgrifiad o'r siopau o gwmpas y ferch 'yn creu cadwyn o'i blaen?'

Oes rheswm bod y bardd wedi dewis disgrifio'r siopau fel hyn?

TASG 3 : YSGRIFENNU (SGRIPTIO)

Yn ei gofid, mae'r ferch yn y gerdd yn mynd i mewn i un o'r siopau i holi (pennill 6).

Ysgrifennwch sgript fer (un dudalen A4) yn cofnodi'r sgwrs rhwng y ferch a'r sawl sy'n gweithio yn y siop.

Gall eich sgript fod yn un o ddifri neu'n sgript gomig.

TASG 4 : YSGRIFENNU (MYNEGI BARN)

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch eich bod yn byw mewn tref fach yng nghefn gwlad Cymru, a bod sôn ar led fod canolfan siopa i'w hadeiladu ar gyrion eich tref.

Ysgrifennwch erthygl (350 o eiriau) i wefan ieuenctid eich tref sy'n nodi eich rhesymau dros ac yn erbyn y datblygiad.

Wedyn, dewch i gasgliad pendant ynglŷn â'ch barn chi ar y mater.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Mae rhai'n dweud bod y Cymry'n rhai da iawn am hiraethu am y gorffennol. A ydych chi'n cytuno â hynny?

b) Mae'n wir bod y gerdd 'Aros a Mynd' yn hen gerdd erbyn hyn, ond ai cerdd ddigalon a hiraethus neu gerdd gadarnhaol yw hi? Ceisiwch ddod o hyd i eiriau ac ymadroddion yn y gerdd sy'n cefnogi eich safbwynt.

TASG 2 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ceiriog oedd bardd Cymraeg mwyaf poblogaidd ei oes. Ysgrifennodd nifer o gerddi a ddaeth yn adnabyddus iawn yn ei ddydd ac wedi hynny.

a) Chwiliwch ar y we am deitlau pump o'r cerddi hynny.

b) Chwiliwch hefyd am bum ffaith ddiddorol am Ceiriog ei hun.

TASG 3 : CREADIGOL

a) Dewiswch un olygfa rydych chi'n gyfarwydd iawn â hi (e.e. yr olygfa allan o'ch ystafell wely; sgwâr y pentref; stryd yn y dref neu ble bynnag), a cheisiwch ddyfalu sut olygfa oedd hi ganrif yn ôl.

b) Wedi gwneud hynny, sylwch ar y pethau hynny sydd, o bosib, wedi newid neu yn newid yn yr olygfa hon dros y blynyddoedd neu o dro i dro.

c) Canolbwyntiwch wedyn ar y pethau yn yr olygfa sydd wastad yn aros yr un peth.

Gwnewch restrau neu tynnwch luniau a'u labelu. Allwch chi ddod o hyd i hen lun go iawn o'r olygfa?

TASG 4 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch eich bod yn blentyn o Lundain, ac yn dod i aros gyda pherthnasau yng nghefn gwlad Cymru am y tro cyntaf. Rydych chi'n aros mewn ffermdy am wythnos, ac yn ystod eich ymweliad rydych yn dod i weld byd a ffordd o fyw sy'n wahanol iawn i'ch bywyd chi yn y ddinas.

Dychmygwch eich bod yn danfon neges fer at eich ffrindiau (er enghraifft, neges destun neu *snapchat*) bob tro rydych chi'n cael profiad newydd, difyr, anodd neu wahanol ar y fferm.

Ysgrifennwch gyfres o 20 o'r negeseuon byrion hynny er mwyn i'r darllenydd gael blas o ddigwyddiadau a theimladau'r wythnos.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Beth mae'r gerdd 'Cysgod' yn datgelu i ni am fywyd a chymeriad y bardd? Sut berson, dybiwch chi, oedd Siân Owen?

b) A yw'r ffaith ein bod ni bellach yn gwybod ei bod hi'n dioddef o ganser pan gyfansoddodd hi'r gerdd yn newid y ffordd rydym yn darllen a dehongli'r gerdd? Pam?

TASG 2 : GWAITH UNIGOL / PARAU / GRŴP

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mae'r bardd wedi dewis rhannu ei gofid hi drwy ysgrifennu cerdd.

a) Sut y bydd pobl eraill yn delio â phroblemau yn eu bywydau personol?

b) Sut y byddwch chi'n delio â'ch problemau chi?

c) Gwnewch restr o'r math o bethau sy'n ofidiau go iawn i bobl, a rhestr o'r mân bethau hynny y mae pobl yn gofidio amdanyn nhw, er nad ydyn nhw'n ofidiau go iawn.

TASG 3 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch ymson ysgafn (200 o eiriau) sy'n gwneud môr a mynydd o ryw fân broblem yn eich bywyd chi, neu ym mywyd y cymeriad rydych yn ei greu yn yr ymson.

Ceisiwch wneud i'r fân broblem swnio fel y broblem fwyaf a gafodd y ddynoliaeth erioed!

TASG 4 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch stori fer (400 o eirau) sydd â salwch aelod o'r teulu yn ganolog mewn rhyw ffordd iddi.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Beth mae'r gerdd 'Cysgod' yn datgelu i ni am fywyd a chymeriad y bardd? Sut berson, dybiwch chi, oedd Siân Owen?

b) A yw'r ffaith ein bod ni bellach yn gwybod ei bod hi'n dioddef o ganser pan gyfansoddodd hi'r gerdd yn newid y ffordd rydym yn darllen a dehongli'r gerdd? Pam?

TASG 2 : GWAITH UNIGOL / PARAU / GRŴP

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mae'r bardd wedi dewis rhannu ei gofid hi drwy ysgrifennu cerdd.

a) Sut y bydd pobl eraill yn delio â phroblemau yn eu bywydau personol?

b) Sut y byddwch chi'n delio â'ch problemau chi?

c) Gwnewch restr o'r math o bethau sy'n ofidiau go iawn i bobl, a rhestr o'r mân bethau hynny y mae pobl yn gofidio amdanyn nhw, er nad ydyn nhw'n ofidiau go iawn.

TASG 3 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch ymson ysgafn (200 o eiriau) sy'n gwneud môr a mynydd o ryw fân broblem yn eich bywyd chi, neu ym mywyd y cymeriad rydych yn ei greu yn yr ymson.

Ceisiwch wneud i'r fân broblem swnio fel y broblem fwyaf a gafodd y ddynoliaeth erioed!

TASG 4 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch stori fer (400 o eirau) sydd â salwch aelod o'r teulu yn ganolog mewn rhyw ffordd iddi.

TASG 1 : DADANSODDI / PARAU

Mewn parau, rhestrwch y geiriau yn y gerdd sy'n ymwneud â daearyddiaeth.

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

Mae'r gerdd yn cychwyn gyda chwestiwn mewn un gair, 'Pellter?', sy'n awgrymu bod rhywun wedi dweud wrth y bardd fod pellter mawr rhyngom ni a'r blaned Mawrth. Erbyn diwedd y gerdd mae'r bardd yn dweud bod 'Mawrth y dychymyg / yn nes nag yr oedd o'r bla'n'.

a) Sut mae'r gerdd wedi dangos i ni fod y blaned Mawrth bellach yn nes atom?

b) Ydych chi'n cytuno â'r bardd?

TASG 3 : YMCHWILIO / YSGRIFENNU (DISGRIFIADOL)

a) Ewch ar y we i weld y lluniau o'r blaned Mawrth sydd ar Google Mars.

b) Dewiswch ddau ohonyn nhw ac ysgrifennwch baragraff disgrifiadol amdanyn nhw, gan ddefnyddio'r dychymyg a'r synhwyrau i geisio dod â'r golygfeydd yn fyw i'r darllenydd.

TASG 4 : YSGRIFENNU (FFUGLEN)

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch eich bod wedi cael comisiwn i ysgrifennu nofel wyddonias wedi'i lleoli ar y ddaear ac ar y blaned Mawrth.

Ysgrifennwch dudalen agoriadol (200 o eiriau) y nofel honno, gan geisio'i gwneud hi mor atyniadol â phosib i'r darllenydd.

(Byddwch yn ddifyr ac yn ddramatig, a pheidiwch â cheisio esbonio popeth!)